***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, ATODLEN 2. (See end of Document for details)*

## ATODLEN 2

*(a gyflwynir gan adran 6(3))*

## PENODI AELODAU'R BWRDD

1 Rhaid i'r Clerc wneud trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi'n Gadeirydd, ac yn aelodau eraill i'r Bwrdd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 1 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

2 Caiff y trefniadau hynny—

(a) eu diwygio o dro i dro, a

(b) gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer penodiadau gwahanol a phenodiadau a wneir mewn amgylchiadau gwahanol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Atod. 2 para. 2 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

3 O ran y trefniadau hynny, rhaid i'r Clerc sicrhau—

(a) nad ydynt yn cynnwys cyfraniad gan unrhyw berson y mae'n ymddangos i'r Clerc ei bod yn debyg yr effeithir arno wrth i'r Bwrdd arfer unrhyw rai o'i swyddogaethau, na chan unrhyw berson sy'n gysylltiedig â pherson o'r fath, a

(b) eu bod, yn ddarostyngedig i is-baragraff (a), yn rhoi sylw priodol i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 3 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

4 Rhaid i'r Clerc beidio â rhoi eu heffaith i'r trefniadau mewn perthynas â phenodiad penodol oni bai eu bod wedi'u cyhoeddi ar wefan y **[**[F1]Senedd**]** yn gyntaf a'u bod yn parhau i gael eu cyhoeddi tra bo'r broses o ddewis person i'w benodi i'r swydd yn mynd rhagddi.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Gair yn Atod. 2 para. 4 wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), a. 42(2), **Atod. 1 para. 4(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Atod. 2 para. 4 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

5 Rhaid i Gomisiwn y **[**[F2]Senedd**]** benodi'n Gadeirydd, neu'n aelod o'r Bwrdd, yn ôl fel y digwydd, unrhyw berson a ddetholir, yn unol â'r trefniadau hyn, i'w benodi i'r swydd honno.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, ATODLEN 2. (See end of Document for details)*

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Gair yn Measure wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(12)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Atod. 2 para. 5 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

6 Nid yw paragraff 3 yn gymwys os yw'n ymddangos i Gomisiwn y **[**[F2]Senedd**]** fod y person o dan sylw wedi'i anghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Bwrdd o dan adran 3.

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Gair yn Measure wedi ei amnewid (6.5.2020) gan Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (anaw 1), **Atod. 1 para. 4(12)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Atod. 2 para. 6 mewn grym ar 22.7.2010, gweler **a. 20(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010, ATODLEN 2.